Cyflawni Triniaethau Tricolegol i groen y pen ar gyfer Cyflyrau o Groen y Pen

## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol a SKATCS1 SKAATS1 Gwneud Ymchwiliadau Tricolegol wedi eu ehangu** a dylid ei defnyddio ochr yn ochr â'r rheiny. Mae'r safon yma ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu gwasanaeth triniaeth i groen y pen er mwyn gwella cyflwr anffafriol croen y pen. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma allu adnabod y cyflwr y maent yn bwriadu ei drin a deall yr arwyddion ffisiolegol a therapiwtig a phriodoldeb pob agwedd o'r driniaeth i groen y pen. Rhaid i ymarferwyr weithio o fewn rhychwant a chyfyngiadau eu hawdurdod a chyfeirio unigolion at bobl broffesiynol berthnasol ym maes gofal iechyd pan fo angen. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, tystiolaeth, polisïau, gweithdrefnau a'r canllawiau arferion gorau diweddaraf sy'n briodol ar gyfer y triniaethau yma. Lle mae Sylfaen y dystiolaeth yn gyfyngedig neu'n anecdotaidd rhaid gwneud hyn yn glir i'r unigolyn sy'n ceisio eich gwasanaethau. Bydd gofyn i chi hefyd werthuso ac adfyfyrio ar eich ymarfer a chymryd camau i ddarparu tystiolaeth o ddatblygiad parhaus. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â, gofynion cymorth cyntaf, yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*